O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 3220 (Cy. 322)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Rhos-goch, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiad a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed 27 *Rhagfyr 2012*

Yn dod i rym 7 *Ionawr 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Sanclêr – Doc Penfro (yr A477) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Ionawr 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Rhos-goch, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiad a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 7 Ionawr 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn o gefnffordd yr A477 yn Rhos-goch yn Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o bwynt 4390 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4314 i Dafarn-sbeit hyd at bwynt 479 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.